

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Atodol 2011-12 (A gyflwynwyd Mehefin 2011)

Gosodwyd Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2011-12 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mehefin 2011. Mae'r prif newidiadau arfaethedig mewn cysylltiad ag ailstrwythuro'r gyllideb i alinio â'r portffolios gweinidogol newydd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2011. Mae rhai dyraniadau o gronfeydd wrth gefn hefyd.

Bwriad y papur hwn yw llywio gwaith craffu ar y Gyllideb Atodol. Mae'n rhoi manylion am y newidiadau o ganlyniad i ailstrwythuro ac yn rhoi dyraniadau'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2011-12 yn eu fformat gwreiddiol a'u fformat wedi iddynt gael eu hailddatgan. Hefyd, mae'n rhoi manylion am y newidiadau yn y Gyllideb Atodol o'i gymharu â'r dyraniadau yn y Gyllideb Derfynol 2011-12 sydd wedi'u hailddatgan.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocratiaidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliad.cymru.org/bus-assemblies-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camareiniol na difrifol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Atodol 2011-12
(A gyflwynwyd Mehefin 2011)

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 11/040

Gwasanaeth
Ymchwil



Crynodeb

Ymddengys bod Cyllideb Atodol 2011-12 yn cyflawni tri phrif ddiben:

- alinio cyllideb 2011-12 yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd;
- gwneud dyraniadau o gronfeydd wrth gefn, a gymeradwywyd ers pasio cynnig y Gyllideb Derfynol; a
- addasu'r llinellau sylfaen i gyfrif am drosglwyddiadau o Lywodraeth y DU o ganlyniad i Gyllideb 2011 y DU.

O'i gymharu â dyraniadau Cyllideb Derfynol 2011-12 (a gafodd eu hailddatgan i adlewyrchu strwythur newydd y portffolios):

- Mae'r cyfanswm y gwariant a reolir (TME) yn gyffredinol wedi cynyddu 0.3 y cant, neu £38.4 miliwn.
- Mae'r TME a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.3 y cant, neu £49.6 miliwn.
- Mae'r terfyn gwariant adrannol (DEL) cyffredinol wedi cynyddu 0.3 y cant, neu £42.9 miliwn.
- Mae'r DEL a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.4 y cant, neu £54 miliwn.
- Mae'r refeniw DEL a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.4 y cant, neu £54 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i ddyraniadau o gronfeydd refeniw.
- Nid oes newid i'r DEL cyfalaf a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae gwariant a reolir yn flynyddol (AME) wedi gostwng 1.4 y cant, neu £4.5 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i ragolygon diwygiedig.

Cynnwys

1.	Trosolwg o Gyllideb Atodol 2011-12	1
2.	Ailstrwythuro portffolios Llywodraeth Cymru.....	2
3.	Prif ffigurau	3
4.	Symudiad o ran cronfeydd wrth gefn.....	10
5.	Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.....	12
6.	Llywodraeth Leol a Chymunedau.....	14
7.	Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.....	17
8.	Addysg a Sgiliau.....	20
9.	Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	22
10.	Tai, Adfywio a Threftadaeth	24
11.	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	27
A.	Aiiddatgan ffigurau dangosol ar gyfer y blynnyddoedd nesaf.....	29
B.	Dyraniadau dros dro o'r Gronfa Cyfalaf Wrth Gefn Ganolog	35

1. Trosolwg o Gyllideb Atodol 2011-12

Gosododd y Gweinidog Cyllid (Jane Hutt AC) Gynnig Cyllideb Atodol 2011-12¹ ar 21 Mehefin 2011. Yn cyd-fynd â hwn roedd nodyn esboniadol² a thablau'n dangos dyraniadau'r³ prif grwp gwariant (MEG⁴). Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Derfynol 2011-12⁵, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror 2011.

Ymddengys bod y Gyllideb Atodol 2011-12 hon yn cyflawni tri phrif ddiben:

- alinio cyllideb 2011-12 yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd;
- gwneud dyraniadau o gronfeydd wrth gefn, a gymeradwywyd ers pasio cynnig y Gyllideb Derfynol; ac
- addasu'r llinellau sylfaen i gyfrif am drosglwyddiadau o Lywodraeth y DU o ganlyniad i Gyllideb 2011 y DU.

Mae'r ffigurau a welir yn y papur hwn yn ymwneud yn unig â newidiadau o fewn y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, ac felly fe'u dangosir yn nhermau **arian parod**; ni wnaethpwyd addasiadau ar gyfer chwyddiant.

Hefyd, mae'n bosibl na fydd ffigurau yn y testun yn gwneud y cyfansymiau, oherwydd talgrynnu.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb atodol yn yr Hysbysiad Hwylus gan y Gwasanaeth Ymchwil: [Cyllideb Atodol](#). Mae'n bosibl y bydd [Geirfa'r Gyllideb](#) o ddiddordeb hefyd.

¹ [Y Cynnig Cyllideb Atodol 2011-12](#), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2011 [fel ar 24 Mehefin 2011]

² [Nodyn Esboniadol ar y Cynnig Cyllideb Atodol 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, Mehefin 2011 [fel ar 24 Mehefin 2011]

³ **Prif grwp gwariant (MEG)** – mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n sawl haen o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant yw'r haen uchaf o fanylion ac maent yn cyfateb i'r portffolios neu gyfrifoldebau gweinidogol. Islaw'r MEG, dynodir gwariant ar sail meysydd rhaglenni gwariant, ac, o fewn y rhain, gamau gweithredu.

⁴ , [Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Cyllideb Atodol 2011-12](#), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2011 [fel ar 24 Mehefin 2011]

⁵ , [Cyllideb Derfynol 2011-12](#), Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011 [fel ar 24 Mehefin 2011]

2. Ailstrwythuro portffolios Llywodraeth Cymru

Yn dilyn y newidiadau i'r portffolios gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2011,⁶ mae'r gyllideb atodol hon yn addasu strwythurau'r gyllideb ar gyfer 2011-12 yn unol â'r portffolios newydd.

Mae'r nodyn esboniadol sy'n mynd gyda'r gyllideb atodol yn esbonio bod:

Mae'r newidiadau yn y portffolios Gweinidogol yn golygu newid strwythurau cyllidebol ar nifer o lefelau, gan gynnwys Prif Grwpiau Gwariant, Meysydd Rhaglenni Gwariant (SPA) a Chamau Gweithredu. Yn nhermau newidiadau yn y Prif Grwpiau Gwariant, lle na chawsant eu newid ryw lawer, maent wedi'u hainenwi, fel y bo angen, i adlewyrchu'r portffolios Gweinidogol – er enghraift mae Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn troi'n Addysg a Sgiliau. Lle gwelwyd newidiadau strwythurol mwy sylfaenol, er enghraift i gyfrifoldebau'n ymwneud â'r Economi a Thrafnidiaeth, dynodwyd MEG o'r hen strwythur fel craidd y MEG newydd. Mae'r MEG hwn wedi'i ailenwi a throsglwyddwyd yr arian angenrheidiol iddo.⁷

Felly, mae'r newidiadau i deitlau'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG) fel a ganlyn:

- Daw Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn **Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant**
- Daw Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn **Llywodraeth Leol a Chymunedau**
- Daw Economi a Thrafnidiaeth yn **Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**
- Daw Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn **Addysg a Sgiliau**
- Daw Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn **Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
- Materion Gwledig – nid yw'n bodoli fel prif grŵp gwariant ar wahân bellach; mae darpariaeth ar gyfer Materion Gwledig o fewn MEG Busnes, Economi, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
- Daw Treftadaeth yn **Dai, Adfywio a Threftadaeth (HRH)**
- Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad – nid yw'n bodoli fel prif grŵp gwariant ar wahân bellach, ond mae darpariaeth o'r MEG hwn wedi'i drosglwyddo i MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau a MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
- Mae **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn aros fel y mae.

⁶ Carwyn Jones (Prif Weinidog), Llywodraeth Cymru, [Penodiadau i'r Cabinet](#) Datganiad Llafar y Cabinet, 18 Mai 2011 [fel ar 23 Mehefin 2011]

⁷ Llywodraeth Cymru, [Nodyn Esboniadol ar y Gyllideb Atodol 2011-12](#), Mehefin 2011 [fel ar 24 Mehefin 2011]

Mae manylion ynghylch trosglwyddiadau rhwng prif grwpiau gwariant (MEG) mewn perthynas â chyfrifoldebau sy'n newid i'w gweld yn adrannau 5 i 11 o'r papur hwn.

Er mwyn hwyluso'r dasg o gymharu, mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan y ffigurau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2011-12 yn unol â'r strwythur MEG newydd. Mae pob tabl a welir yn y papur hwn yn dangos y strwythur MEG newydd gyda ffigurau ar gyfer:

- dyraniadau fel roeddent yn Nghyllideb Derfynol 2011-12 (ar gyfer strwythurau blaenorol y MEGs);
- newidiadau i bortffolios o ganlyniad i ailstrwythuro ;
- dyraniadau Cyllideb Derfynol 2011-12 wedi'u hailddatgan yn unol â'r strwythurau newydd; a
- newidiadau rhwng dyraniadau'r Gyllideb Derfynol a gafodd eu hailddatgan 2011-12 a'r rhai yn y gyllideb atodol hon.

Hefyd mae ffigurau dangosol ar gyfer y blynnyddoedd nesaf (2012-13 a 2013-14) o Gyllideb Derfynol 2011-12 wedi'u hailddatgan yn unol â'r MEGs newydd, ac mae modd gweld tablau crynhoi sy'n dangos yr ailddatganiadau hyn a'r newidiadau perthnasol yn [atodiad A](#).

3. Prif ffigurau

Mae [Tabl 1](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i gyfanswm y gwariant a reolir (TME).⁸

Mae [Tabl 2](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i ddyraniadau terfynau gwariant adrannol (DEL)⁹ (cyfanswm DEL, DEL refeniw a DEL cyfalaf), ac mae [ffigur 1](#) yn dangos y gyfran o gyfanswm y DEL a ddyrannwyd i bob MEG.

Dengys [Tabl 3](#) y newidiadau yn nyrsiadau'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME)¹⁰

Dengys tabl [4](#) a [5](#) y newidiadau yn y DEL refeniw a'r DEL cyfalaf yn eu tro, i MEGs Llywodraeth Cymru.

O'r tablau hyn mae modd gweld, mewn cymhariaeth â Chyllideb Derfynol 2011-12:

⁸ **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** – cyfanswm cyfunol y gwariant a reolir yn flynyddol o'r gyllideb (AME) a'r terfynau gwariant adrannol (DEL).


⁹ **Terfyn gwariant adrannol (DEL)** - fe'u pennir fel arfer dros dair neu bedair blynnydd fel rhan o broses Adolygu Gwariant Llywodraeth y DU, a hwn yw'r terfyn cyllidebol aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb a neilltuwyd, neu'r grant bloc) ac mae'n rhoi dewis llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwariant. Fformiwla Barnett sy'n penderfynu ar newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath .

¹⁰ **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** – mae'n anos rhagweld y gwariant hwn na gwariant y terfynau gwariant adrannol (DEL). Mae'n cynnwys gwariant sydd fel arfer yn cael ei arwain gan y galw ac felly nid yw'n bosibl i'r ddarpariaeth fod yn destun terfynau aml-flwyddyn, (er enghraift, rhoi benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff hwn ei adolygu a'i Bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y gellir dyrrannu AME , felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddewis o ran ei ddyrannu. Mae modd defnyddio AME pellach gan Drysorlys EM yn ôl y gofyn, ond rhaid dychwelyd unrhyw AME nad yw wedi'i wario.

- Yn gyffredinol y bydd cyfanswm y gwariant a reolir (TME) yn cynyddu 0.3 y cant, neu £38.4 miliwn.
- Y bydd TME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru yn cynyddu 0.3 y cant, neu £49.6 miliwn.
- Y bydd DEL cyffredinol yn cynyddu 0.3 y cant, neu £42.9miliwn.
- Y bydd DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru yn cynyddu 0.4 y cant, neu £54 miliwn.
- Y bydd DEL Refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru yn cynyddu 0.4 y cant, neu £54 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i ddyraniadau o gronfeydd refeniw.
- Nid oes newid i'r DEL cyfalaf a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Bydd gwariant a reolir yn flynyddol (AME) yn gostwng 1.4 y cant, neu £4.5miliwn. Mae hyn o ganlyniad i ragolygon diwygiedig.

Mae rhagor o fanylion am newidiadau o fewn pob prif grŵp gwariant fesul maes y rhaglen wariant¹¹ i'w gweld yn adran 5 i 11 o'r papur hwn.

Ffigur 1: Cyfran o ddyraniad y DEL i bob prif grŵp gwariant



Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

¹¹ **Maes y rhaglen wariant (SPA)** – bydd cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n sawl haen o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Meysydd rhagleni gwariant yw'r ail haen o fanylion islaw'r prif grwpiau gwariant (MEG) ac maent yn diffinio grwpiau dyraniadau dewisol yn unol â'r math o wasanaethau sydd i gael eu darparu.

Tabl 1: Newidiadau i gyfanswm y gwariant a reolir (TME)

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011-12	Cyllideb Derfynol (ailddat gan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Cyllideb Atodol (Meh 2011) 2011- 12	Newid o'r Gyllideb Derfynol (ailddat gan) i'r Gyllideb atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	canran
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,269,558	6,333,690	64,132	6,420,941	87,251	1.4
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,388,338	5,128,910	740,572	5,153,048	24,138	0.5
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	882,895	321,636	-561,259	321,636	0	0.0
Addysg a Sgiliau	2,102,341	2,012,830	-89,511	1,925,476	-87,354	-4.3
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	668,953	311,311	-357,642	329,709	18,398	5.9
Materion Gwledig	136,798	0	-136,798	0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	158,501	531,025	372,524	531,175	150	0.0
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	63,782	0	-63,782	0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	331,510	363,274	31,764	370,250	6,976	1.9
Cyfanswm Dyraniadau TME Llywodraeth Cymru	15,002,676	15,002,676	0	15,052,235	49,559	0.3
Cronfeydd Refeniw	235,432	235,432	0	204,884	-30,548	-13.0
Cronfeydd Cyfalaf	50,448	50,448	0	69,880	19,432	38.5
Comisiwn y Cynulliad	49,322	49,322	0	49,322	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,853	4,853	0	4,853	0	0.0
Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,854	3,854	0	3,854	0	0.0
Taliadau Uniongyrchol	675	675	0	675	0	0.0
Cyfanswm TME Cymru	15,347,260	15,347,260	0	15,385,703	38,443	0.3

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

Tabl 2: Newidiadau i gyfanswm terfynau gwariant

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011-12	Cyllideb Derfynol (ailldat gan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Cyllideb Atodol (Meh 2011) 2011- 12	Newid o'r Gyllideb Derfynol (ailldat gan) i'r Gyllideb Atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	canran
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,150,610	6,214,742	64,132	6,236,242	21,500	0.3
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,374,755	5,115,327	740,572	5,115,327	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	841,493	280,234	-561,259	280,234	0	0.0
Addysg a Sgiliau	1,884,685	1,795,174	-89,511	1,800,174	5,000	0.3
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	740,953	311,311	-429,642	329,709	18,398	5.9
Materion Gwledig	136,798	0	-136,798	0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	156,236	600,760	444,524	600,910	150	0.0
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	63,782	0	-63,782	0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	330,586	362,350	31,764	371,350	9,000	2.5
Cyfanswm dyraniadau DEL y Llywodraeth	14,679,898	14,679,898	0	14,733,946	54,048	0.4
Cronfeydd Refeniwr wrth Gefn	235,432	235,432	0	204,884	-30,548	-13.0
Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn	50,448	50,448	0	69,880	19,432	38.5
Comisiwn y Cynulliad	48,822	48,822	0	48,822	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,853	4,853	0	4,853	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,854	3,854	0	3,854	0	0.0
Taliadau Uniongyrchol	675	675	0	675	0	0.0
Cyfanswm DEL Cymru	15,023,982	15,023,982	0	15,066,914	42,932	0.3

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

Tabl 3: Newidiadau i wariant a reolir yn flynyddol

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011-12	Cyllideb Derfynol (ailddatgan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Cyllideb Atodol (Meh 2011) 2011-12	Y newid o'r Gyllideb Derfynol (ailddatgan) i'r Gyllideb Atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	canran
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	118,948	118,948	0	184,699	65,751	55.3
Llywodraeth Leol a Chymunedau	13,583	13,583	0	37,721	24,138	177.7
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	41,402	41,402	0	41,402	0	0.0
Addysg a Sgiliau	217,656	217,656	0	125,302	-92,354	-42.4
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	-72,000	0	72,000	0	0	0.0
Materion Gwledig	0	0	0	0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	2,265	-69,735	-72,000	-69,735	0	0.0
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	0	0	0	0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	924	924	0	-1,100	-2,024	-219.0
Cyfanswm AME Llywodraeth Cymru	322,778	322,778	0	318,289	-4,489	-1.4
Comisiwn y Cynulliad	500	500	0	500	0	0.0
Cyfanswm DEL Cymru	323,278	323,278	0	318,789	-4,489	-1.4

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

Tabl 4: Newidiadau i ddyraniadau DEL refeniw i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru

Prif Grwp Gwariant	Cyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011-12	Cyllideb Derfynol (ailddatgan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Cyllideb Atodol (Meh 2011) 2011-12	Y newid o'r Gyllideb Derfynol (ailddatgan) i'r Gyllideb atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	canran
DEL Refeniw						
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	5,885,820	5,952,639	66,819	5,974,139	21,500	0.4
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,332,436	4,834,155	501,719	4,834,155	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	528,299	185,646	-342,653	185,646	0	0.0
Addysg a Sgiliau	1,711,332	1,625,201	-86,131	1,630,201	5,000	0.3
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	375,409	250,669	-124,740	269,067	18,398	7.3
Materion Gwledig	123,964	0	-123,964	0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	141,393	284,022	142,629	284,172	150	0.1
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	46,705	0	-46,705	0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	318,604	331,630	13,026	340,630	9,000	2.7
Cyfanswm DEL Refeniw Llywodraeth Cymru	13,463,962	13,463,962	0	13,518,010	54,048	0.4

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

Tabl 5: Newidiadau i ddyraniadau DEL cyfalaf i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011-12	Cyllideb Derfynol (ailddatgan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Cyllideb Atodol (Meh 2011) 2011-12	Y newid o'r Gyllideb Derfynol (ailddatgan) i'r Gyllideb Atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	canran
DEL Cyfalaf						
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	264,790	262,103	-2,687	262,103	0	0.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	42,319	281,172	238,853	281,172	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	313,194	94,588	-218,606	94,588	0	0.0
Addysg a Sgiliau	173,353	169,973	-3,380	169,973	0	0.0
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	365,544	60,642	-304,902	60,642	0	0.0
Materion Gwledig	12,834	0	-12,834	0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	14,843	316,738	301,895	316,738	0	0.0
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	17,077	0	-17,077	0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	11,982	30,720	18,738	30,720	0	0.0
Cyfanswm DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru	1,215,936	1,215,936	0	1,215,936	0	0.0

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

4. Symudiad o ran cronfeydd wrth gefn

Adeg Cyllideb Derfynol 2011-12, roedd cronfeydd wrth gefn fel a ganlyn:

- Cronfeydd refeniwrth gefn o £178.6 miliwn;
- Cronfeydd cyfalaf wrth gefn o £50.4 miliwn; a

£56.7 miliwn o addasiadau DEL¹² a gafodd eu datgan yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 i'w ‘gadw mewn cronfeydd wrth gefn i gychwyn a'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn’,¹³ □ er ei bod yn ymddangos, bryd hynny, ei fod y tu allan i linell wariant y cronfeydd wrth gefn.

Mae'r gyllideb atodol hon yn ymgorffori'r £56.7 miliwn o addasiad DEL yn y cronfeydd refeniwrth gefn. Mae [Tabl 6](#) yn rhoi manylion y symudiadau o ran cronfeydd refeniwrth gefn a chronfeydd cyfalaf wrth gefn.

Tabl 6: Symudiad o ran cronfeydd wrth gefn

Cronfa Refeniwrth Gefn	2011-12	Cronfa Gyfalaf wrth Gefn	2011-12
Cronfa wrth gefn adeg y Gyllideb Derfynol 2011-12 (aiddatgan)¹	235,432	Cronfa wrth gefn adeg y Gyllideb Derfynol 2011-12 (aiddatgan)	50,448
Trosglwyddiadau o Lywodraeth y DU:		Trosglwyddiadau o Lywodraeth y DU	
Iechyd a Lles Anifeiliaid DEFRA Symiau Canlyniadol o Gyllideb 2011 y Deyrnas Unedig	18,600 4,900	Symiau Canlyniadol o Gyllideb 2011 y Deyrnas Unedig	19,432
Dyra niadau i brif grwpiau gwariant:			
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant-Gwasanaethau Orthopedig Addysg a Sgiliau - Addasu	-21,500 -5,000		
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy - Iechyd a Lles Anifeiliaid Tai, Adfywio a Threftadaeth - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	-18,398 -150		
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - Costau sy'n gysylltiedig â datganoli iechyd a lles anifeiliaid Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - Cost etholiadau'r Cynulliad	-200 -8,800		
Cronfa ar gyfnod y Gyllideb Atodol 2011-12	204,884	Cronfa ar gyfnod y Gyllideb Atodol 2011-12	69,880

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

¹² Cafodd y £56.77 miliwn ei ryddhau yn 2011-12 trwy benderfyniad Llywodraeth Cymru i gymryd swm y gostyngiadau a benwyd gan Lywodraeth y DU yn ei gyfarwydd (ym mis Mai 2010) ym mlwyddyn ariannol 2010-11, yn hytrach na'i rannu rhwng dwy flwyddyn ariannol.

¹³ Llywodraeth Cymru, [Nodyn Esboniadol am y Gyllideb Derfynol 2011-12](#), Chwefror 2011 tud 3 [fel ar 24 Mehefin 2011]

Fel y gwelir o'r tabl hwn, bu nifer o drosglwyddiadau o Lywodraeth y DU:

- £18.6 miliwn gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) y DU mewn cysylltiad ag iechyd a lles anifeiliaid;¹⁴ a
- £24.3 miliwn o daliadau canlyniadol o ganlyniad i Gyllideb 2011 y DU.

O'r dyraniadau o gronfeydd refeniw wrth gefn, mae'r £5 miliwn i Addysg a Sgiliau ar gyfer cynllun Addasu mewn perthynas â chronfa Cymorth Newid Gyrfa Llywodraeth Cymru.¹⁵ Cafwyd datganiad ynglŷn â'r gronfa hon yng Nghyllideb Derfynol 2011-12, a'i nod yw darparu gwasanaethau mewn modd mwy effeithiol ac arloesol. Nodwyd fod £14 miliwn wedi'i ddyrannu i'r Gronfa yn 2011-12, yn codi i £40 miliwn yn 2012-13 ac yn 2013-14. Adeg Cyllideb Derfynol 2011-12, cadwyd yr arian hwn mewn cronfeydd wrth gefn.¹⁶

Yn ddiddorol, nid oes dyraniadau o gronfeydd cyfalaf wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Ar 31 Mawrth 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad a oedd yn nodi dyraniadau dros dro o'r Gronfa Cyfalaf Wrth Gefn Ganolog.¹⁷ Roedd y datganiad hwn yn cyhoeddi bod £105 miliwn i'w ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i nifer o brosiectau cyfalaf (a nodir yn fanwl yn [atodiad B](#)). Gan nad yw'r dyraniadau hyn wedi'u gwneud yn y gyllideb atodol hon, tybir y caiff yr arian ei ddyrannu mewn cyllideb atodol ddilynol yn y flwyddyn ariannol.

¹⁴ Elin Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Llywodraeth Cymru [Datganoli cyllidebau iechyd a lles anifeiliaid o DEFRA](#). Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 14 Mawrth 2011 [fel ar 23 Mehefin 2011] Mae datganiad y Gweinidog yn nodi manylion trosglwyddo £21 miliwn o DEFRA yn 2011-12. Ond, mae'r gyllideb hon yn manylu ar ddim ond £18.6 miliwn.

¹⁵ Jane Hutt (Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), Llywodraeth Cymru [Dull o ran Dyrannu Arian o Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Cymorth Trosiannol yn 2011-12](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 31 Mawrth 2011 [fel ar 23 Mehefin 2011]

¹⁶ Llywodraeth Cymru, [Nodyn Esboniadol ar y Gyllideb Derfynol 2011-12](#), Chwefror 2011 tud 3 [fel ar 24 Mehefin 2011]

¹⁷ Carwyn Jones (y Prif Weinidog), Llywodraeth Cymru, y Dirprwy Brif Weinidog (Ieuan Wyn Jones) a Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, [Cynlluniau Gwariant Cyfalaf 2011-12](#), Datganiadau Ysgrifenedig y Cabinet, 15 Mawrth 2011 [fel ar 24 Mehefin 2011]

5. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Nid yw MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant wedi newid llawer o'i gymharu â MEG blaenorol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol . Ond, mae bellach yn cynnwys swyddogaethau'n ymwneud â gwasanaethau plant o MEG blaenorol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Yn gyffredinol gwelodd cyllideb Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant newidiadau gwerth £64.1 miliwn yn y portffolio, ac mae ganddi ddyraniadau ychwanegol o £87.3 miliwn, neu 1.4 y cant o'i gymharu â dyraniadau'r Gyllideb Derfynol a gafodd eu hailddatgan ar gyfer 2011-12. Dengys [Tabl 7](#) fanylion y newidiadau ym MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

Mae'r newidiadau gwerth £64.1 miliwn i'r portffolio¹⁸ yn bennaf o ganlyniad i:

- Drosglwyddo £97.7 miliwn o MEG Addysg a Sgiliau mewn cysylltiad â throsglwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Trosglwyddo £33.6 miliwn i MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, mewn cysylltiad â chamdefnyddio sylweddau.

Mae'r dyraniadau ychwanegol o £87.3 miliwn yn cynnwys:

- Dyraniad o £21.5 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn gyda golwg ar leihau amseroedd aros am wasanaethau orthopedig. Fe'i pennwyd ar gyfer maes rhaglen gwariant 'Cyflenwi' y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Cynnydd o £65.7 miliwn yng nghyllideb yr AME, sy'n cynrychioli rhagolygon diwygiedig yng nghyswllt diffygion ar ystâd y GIG.

¹⁸ Ymddengys hefyd fod trosglwyddiad wedi bod o fewn y MEG o £18 miliwn o SPA Cyllidebau Canolog Iechyd i SPA Cyflenwi'r GIG .

Tabl 7: Dyraniadau Prif Grŵp Gwariant lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Maes y rhaglen wariant	Y Gyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011- 12	Y Gyllideb Derfynol (ailldatgan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Y Gyllideb Atodol (Meh 2011) 2011-12	Newid o'r Gyllideb Derfynol (ailldatgan) i'r Gyllideb Atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	canran
Y DEL Refeniw						
Cyflenwi'r GIG	5,368,048	5,386,003	17,955	5,407,503	21,500	0.4
Cyllidebau Canolog lechyd	257,615	212,185	-45,430	212,185	0	0.0
Iechyd Cyhoeddus ac Atal Clefydau	155,592	155,592	0	155,592	0	0.0
Gwasanaethau Cymdeithasol	94,427	188,721	94,294	188,721	0	0.0
CAFCASS Cymru	10,138	10,138	0	10,138	0	0.0
Cyfanswm y Refeniw	5,885,820	5,952,639	66,819	5,974,139	21,500	0.4
Y DEL Cyfalaf						
Cyflenwi'r GIG	247,573	247,573	0	247,573	0	0.0
Cyllidebau Canolog lechyd	6,117	0	-6,117	0	0	100.0
Iechyd Cyhoeddus ac Atal Clefydau	5,418	5,418	0	5,418	0	0.0
Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol	5,682	9,112	3,430	9,112	0	0.0
Cyfanswm y Cyfalaf	264,790	262,103	-2,687	262,103	0	0.0
Gwariant a reolir yn flynyddol						
Diffygion y GIG	118,948	118,948	0	184,699	65,751	55.3
Cyfanswm y gwariant a reolir yn flynyddol	118,948	118,948	0	184,699	65,751	55.3
Y DEL Refeniw	5,885,820	5,952,639	66,819	5,974,139	21,500	0.4
Y DEL Cyfalaf	264,790	262,103	-2,687	262,103	0	0.0
Cyfanswm y DEL	6,150,610	6,214,742	64,132	6,236,242	21,500	0.3
Gwariant a reolir yn flynyddol	118,948	118,948	0	184,699	65,751	55.3
Cyfanswm ar gyfer lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,269,558	6,333,690	64,132	6,420,941	87,251	1.4

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

6. Llywodraeth Leol a Chymunedau

Mae MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi'i seilio ar MEG blaenorol Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ond mae hefyd yn cynnwys swyddogaethau mewn cysylltiad â thrafnidiaeth, camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder ieuencid, yn ogystal â swyddogaethau archwilio, rheoleiddio a chydweithio MEG blaenorol Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformio.

Mae cyllideb Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyffredinol wedi gweld newidiadau o £740.5 miliwn, ac mae ganddi ddyraniadau o £24.1 miliwn yn ychwanegol o'i gymharu â dyraniadau'r Gyllideb Derfynol a gafodd eu hailddatgan ar gyfer 2011-12. Dengys [Tabl 8](#) fanylion y newidiadau ym MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Mae'r newidiadau gwerth £740.6 miliwn i'r portffolio yn bennaf o ganlyniad i:

- Drosglwyddo £33.6 miliwn o MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, mewn cysylltiad â chamddefnyddio sylweddau.
- Trosglwyddo £671.5 miliwn o MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, mewn cysylltiad â thrafnidiaeth.
- Trosglwyddo £4.7 miliwn o MEG Addysg a Sgiliau mewn cysylltiad â chyfiawnder ieuencid.
- Trosglwyddo £37.5 miliwn o MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad, mewn cysylltiad â swyddogaethau archwilio, rheoleiddio a chydweithio.
- Trosglwyddo £0.1 miliwn o MEG Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy mewn cysylltiad â beicio.
- Trosglwyddo £5.1 miliwn i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mewn cysylltiad â chynhwysiant digidol, cydlyniant cymunedol, cynhwysiant a hydraddoldeb.
- Trosglwyddo £1.9 miliwn i MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer swyddogaethau menter gymdeithasol a seilwaith.

Mae'r dyraniad o £24.1 miliwn o ganlyniad i'r AME mewn cysylltiad â thrafnidiaeth yn unig.

Tabl 8: Dyraniadau MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau

Maes y rhaglen wariant	Y Gyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011- 12	Y Gyllideb Derfynol (ailddat gan) 2011-12	Newidiadau i'r portffolio	Y Gyllideb Atodol (Meh 2011) 2011-12	Newid o'r Gyllideb Derfynol (ailddat gan) i'r Gyllideb Atodol	
	£000	£000	£000	£000	£000	caran
Y DEL Refeniw						
Arian Llywodraeth Leol	4,209,918	4,209,918	0	4,209,918	0	0.0
Cefnogi Cymunedau a Phobl	60,543	58,662	-1,881	58,662	0	0.0
Cymunedau Diogelach	11,851	43,841	31,990	43,841	0	0.0
Polisi Llywodraeth Leol	37,552	37,552	0	37,552	0	0.0
Polisi Trethu Lleol	10,744	10,744	0	10,744	0	0.0
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	1,828		-1,828			
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau		15,757	15,757	15,757	0	0.0
Cymdeithasol Cymru		2,824	2,824	2,824	0	0.0
Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru		13,437	13,437	13,437	0	0.0
Estyn		400	400	400	0	0.0
Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad		1,560	1,560	1,560	0	0.0
Cydweithio Lleol a Rhanbarthol		3,197	3,197	3,197	0	0.0
Effeithiolwydd ac Arloesi		234,063	234,063	234,063	0	0.0
Gwella cysylltedd domestig (rhanbarthol a chenedlaethol)		114,487	114,487	114,487	0	0.0
Gwella cysylltedd rhyngwladol		84,657	84,657	84,657	0	0.0
Gwella ac integreiddio Trafnidiaeth (yn Lleol)		3,056	3,056	3,056	0	0.0
Gwella diogelwch ar y ffordd a lleihau effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd	4,332,436	4,834,155	501,719	4,834,155	0	0.0
Cyfanswm y Refeniw						

Tabl 8: Dyraniadau MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau

Maes y rhaglen wariant	Y Gyllideb Derfynol (Chwef 2011) 2011- 12	£000	Y Gyllideb Derfynol (ailldat gan) 2011-12	£000	Newidiadau i'r portffolio	£000	Y Gyllideb Atodol (Meh 2011) 2011-12	£000	Newid o'r Gyllideb Derfynol (ailldat gan) i'r Gyllideb Atodol	£000	canran
Y DEL Cyfalaf					0						
Arian Llywodraeth Leol	20,000	20,000		0		20,000		0		0.0	
Cefnogi Cymunedau a Phobl	17,280	17,280		0		17,280		0		0.0	
Cymunedau Diogelach	3,039	9,156		6,117		9,156		0		0.0	
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	2,000			-2,000				
Estyn		339		339		339		0		0.0	
Gwella cysylltedd domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)		83,674		83,674		83,674		0		0.0	
Gwella cysylltedd rhyngwladol		59,088		59,088		59,088		0		0.0	
Gwella ac integreiddio Trafnidiaeth (yn Lleol)		80,713		80,713		80,713		0		0.0	
Gwella diogelwch ar y ffordd a lleihau effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd		10,922		10,922		10,922		0		0.0	
Cyfanswm y Cyfalaf	42,319	281,172	238,853		281,172		0	0		0.0	
AME				0							
Arian Llywodraeth Leol	13,583	13,583		0		13,583		0		0.0	
Gwella cysylltedd domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)				0		24,138		24,138		100.0	
Cyfanswm yr AME	13,583	13,583	0		37,721		24,138	177.7			
Y DEL Refeniw	4,332,436	4,834,155	501,719		4,834,155		0	0.0			
Y DEL Cyfalaf	42,319	281,172	238,853		281,172		0	0.0			
Cyfanswm y DEL	4,374,755	5,115,327	740,572		5,115,327		0	0.0			
Gwariant a reolir yn flynyddol	13,583	13,583		0		37,721		24,138		177.7	
Cyfanswm ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,388,338	5,128,910	740,572		5,153,048		24,138	0.5			

Ffynhonnell: Daw cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Atodol 2011-12

7. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

